**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 20fed Rhagfyr 2004 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Yr aelodau i drafod y cais y dylid cyflwyno tarian swyddogol yr Awdurdod Tân i bob aelod sy'n ymddeol o'r Awdurdod Tân. |

1. **GWYBODAETH**

1.1 Yn y cyfarfod o Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 18fed Hydref 2004, dan Rybudd o Faterion Brys, cyflwynodd un aelod fater i'w ystyried sef y dylid cyflwyno tarian swyddogol Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gyn aelodau'r Awdurdod.

1.2 Wedi trafod y mater, penderfynodd yr aelodau y dylai adroddiad gael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn yn rhestru'r meini prawf a gynigir i'w bodloni, a'r protocolau i'w cadw ar gyfer cyflwyno'r darian swyddogol i aelodau sy'n ymddeol o'r Awdurdod Tân.

**2. GWYBODAETH**

2.1 Ar y darian bresennol, sy'n costio tua £18, mae Arfbais yr Awdurdod a'r arysgrifiad "Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru". Ar hyn o bryd maent yn cael eu cyflwyno i staff y Gwasanaeth gan y Prif Swyddog Tân fel arwydd o gydnabyddiaeth am gyfnod hir o wasanaeth.

2.2 Ar hyn o bryd mae'r Prif Swyddog Tân yn rhoi'r darian i:

- Staff sy'n ymddeol ar ôl cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth;
- Staff sydd wedi cwblhau 25 mlynedd o wasanaeth a rhagor ac sy'n ymddeol ar sail feddygol; a
- Staff sydd wedi cwblhau cymaint o wasanaeth â phosib cyn ymddeol yn orfodol ar sail oedran.

## 3. <u>YSTYRIAETHAU</u>

3.1 Byddai aelodau'n dymuno ystyried ar ba achlysur, os o gwbl, y byddent yn dymuno cyflwyno tarian i aelodau sy'n ymddeol, a'r hyn y maent yn ei ystyried yn "ymddeoliad".

<u>Ymddeoliad</u>

Yr awgrym yw y dylid cyflwyno tarian i unrhyw aelod sydd

(a) wedi gwasanaethu am o leiaf 4 mlynedd fel aelod o'r awdurdod tân.

(b) yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod tân am unrhyw reswm, ond heb fod yn cynnwys gwaharddiad o fod yn aelod dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(c) nad yw wedi cael cerydd neu waharddiad am dorri'r côd ymddygiad o safbwynt ei wasanaeth fel aelod o'r awdurdod tân.

3.2 Unwaith y bydd yr aelodau wedi cytuno ar y paramedrau, dylai'r tariannau gael eu cyflwyno gan y Cadeirydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf yr Awdurdod yn dilyn yr Etholiadau.

3.3 Y dylai tarian at ddefnydd penodol yr Awdurdod Tân gyda'r arysgrifiad "Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru" gael ei darparu.

## 4. <u>ARGYMHELLION</u>

4.1 Ystyried yr adroddiad bod tariannau'n cael eu cyflwyno i aelodau sy'n ymddeol o'r Awdurdod Tân; a

4.2 Cytuno ar y cymhwyster i dderbyn tarian.

PS/SS/NWFA
02/11/04